Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: 12 Mawrth 2024

Crynodeb o funudau'r cyfarfod a chynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 12 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 12 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-12-mawrth-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Cyflwyniad

Adolygiad y panel o'r 12 mis diwethaf a chynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod

Camau gweithredu

Y cyfarfod nesaf



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-12-mawrth-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

Frances Duffy, Cadeirydd
Saz Willey, Is-gadeirydd
Bev Smith, aelod
Dianne Bevan, aelod
Kate Watkins, aelod
Shan Whitby, Llywodraeth Cymru
Shereen Williams, SW, Prif Weithredwr, y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol (y Comisiwn)
Roger Ashton-Winter, RAW, Rheolwr Prosiect, y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol

# Cyflwyniad

Cynhaliodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) Ddiwrnod Strategaeth ddydd Mawrth 12 Mawrth 2024.

Pwrpas y Diwrnod Strategaeth oedd i'r Panel adolygu meysydd gwaith y 12 mis blaenorol a chynllunio ar gyfer y flwyddyn, gan nodi meysydd gwaith allweddol ac ymchwil ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nod cyfarfod y Panel ym mis Mawrth oedd:

- adolygu'r flwyddyn ddiwethaf a nodi meysydd ar gyfer gwella
- trafod materion a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf gan gyfeirio at strategaeth 3 blynedd
- ystyried pa dystiolaeth y gallai fod ei hangen ar y panel ar gyfer penderfyniadau ar dâl cydnabyddiaeth yn y dyfodol, gan nodi bylchau at ddibenion ymchwil yn y dyfodol. Datblygu cynllun ymchwil a thystiolaeth ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-12-mawrth-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyfer y flwyddyn i ddod
- trafod ac adolygu'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu a diweddaru blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod
- trafod ac adolygu'r prif risgiau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn cynllun gweithredol eleni

## Adolygiad y panel o'r 12 mis diwethaf a chynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod

Adolygodd y Panel y 12 mis diwethaf, gan nodi'r hyn sydd wedi mynd yn dda, adborth gan aelodau newydd y panel, gan nodi'r meysydd lle'r oedd angen gwella ac adolygu'r strategaeth 3 blynedd.Cytunodd y panel ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan drafod ac ystyried pynciau cyd-destun ehangach, megis cyfarfod â Llywodraeth yr Alban a'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Iechyd Demograffig, er mwyn sicrhau bod y Panel yn ymwybodol o gyd-destun ehangach a'u gweithgareddau gwaith cyfredol.

Fe wnaeth y Panel drafod ac adolygu'r gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan ystyried adborth a chynllunio'r gweithgarwch i gasglu'r dystiolaeth y bydd angen i’r Panel ei gwblhau er mwyn cefnogi penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol yn y dyfodol.

Cafodd y Panel drafodaeth ar y gwaith o gynllunio ar gyfer gwneud ymchwil a chasglu tystiolaeth, er mwyn ystyried y bylchau a nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr ymchwil, a oedd yn cynnwys pobl Ifanc, adroddiadau cynghorau cymuned a thref, ac ymchwil economaidd-gymdeithasol.

Diweddaru'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu a nodi gweithgarwch allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd hyn yn cynnwys presenoldeb y Panel yng nghynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru ar 27 Mawrth a pharatoi stondin arddangos, a fyddai’n cynnwys taflen wybodaeth a phoster.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-12-mawrth-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Trafodwyd adolygiad o'r gofrestr risg i sicrhau bod yr holl risgiau yn cael eu nodi a bod elfennau allweddol yn y cynllun gweithredol yn cael eu diweddaru, er mwyn iddynt gael eu rheoli gan y Panel a'r Ysgrifenyddiaeth.

## Camau gweithredu

Y camau allweddol ar gyfer y misoedd nesaf yw:

- diweddaru'r Gofrestr Risg a'r Cynllun Gweithredol
- nodi'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion yn y Cynllun Ymchwil a Thystiolaeth
- lluniwch gynllun gweithredu i gwmpasu trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Comisiwn newydd

## Y cyfarfod nesaf

Bydd cyfarfod nesaf Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei gynnal ar ddydd Mawrth 23 Ebrill 2024.

Os oes gennych unrhyw faterion yr hoffech eu codi gyda'r Panel, mae croeso ichi gysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth drwy e-bostio **IRPMailbox@llyw.cymru**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-12-mawrth-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.